Prifysgol **Wrecsam**
**Wrexham** University

| PENNAWD RHEOLI | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran:** | Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr, Bywyd Myfyrwyr a Champws | | |
| **Awduron:** | Rebecca Hughes, Lisa Partridge, Ali Bloomfield | | |
| **Awdurdodwyd Gan:** | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | | |
| **Gweithredir Gan:** | Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr/Bywyd Myfyrwyr a Champws/AD | | |
| **Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn Cyfeirnod:** | POPRSPSA2526001 | | |
| **Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn Disodli:** | POPRSPSA1920013 | | |
| **Rhif y Fersiwn:** | 3 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | MH&WBWG<br>Pwyllgor Pobl<br>VCET |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 20.01.2026 | **Rhif cofnod:** | 24.38<br>25.02.03.06<br>25.183 |
| **Statws:** | Cymeradwywyd | **Dyddiad Gweithredu:** | Ionawr 2026 |
| **Cyfnod cymeradwyo:** | 3 blynedd | **Dyddiad Adolygu:** | Ionawr 2029 |
| Rwyf wedi cynnal **A CHYFLWYNO** Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. | | | |
| Rwyf wedi cynnal **A CHYFLWYNO** Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg er mwyn helpu i ddiogelu'r Gymraeg a darpariaeth Gymraeg o fewn y Brifysgol. | | | |

**POLISI CAMYMDDWYN RHYWIOL A CHAM-DRIN DOMESTIG**

Mae strategaeth Wrecsam 2030 yn amlinellu gweledigaeth i fod yn brifysgol flaengar, ddinesig, fodern sydd wedi'i chefnogi gan 3 maes thematig; profiad myfyrwyr a chyfleoedd, ymchwil a menter, pobl, lle a phartneriaethau. Ochr yn â hyn mae yna gyfres o werthoedd a rennir i'w hymgorffori gan staff a myfyrwyr er mwyn sicrhau bod Wrecsam yn amgylchedd cynhwysol a chefnogol lle mae profiad y myfyriwr o'r pwys mwyaf. Mae gweithredu a chadw at y polisi hwn yn cefnogi darparu profiad myfyriwr o safon uchel ac yn creu amgylchedd o ragoriaeth a chynhwysiant lle gall myfyrwyr ffynnu

**1. DATGANIAD POLISI**

1.1 Mae Prifysgol Wrecsam yn mabwysiadu agwedd dim goddefgarwch tuag at gamymddwyn rhywiol a/neu gam-drin domestig a bydd adroddiadau ffurfiol a wneir i'r Brifysgol yn cael eu hystyried a'u hasesu yn unol â'r polisi hwn. Rydym yn cydnabod y traweffaith sylweddol y gall camymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig ei gael ar unigolyn, a chynigir cefnogaeth i fyfyrwyr a staff fel ei gilydd yn dilyn unrhyw adroddiadau ffurfiol neu ddatgeliadau i'r Brifysgol.

1.2 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i greu a sicrhau amgylchedd campws diogel, lle mae hawliau ac urddas pob aelod o gymuned y Brifysgol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

1.3 Nod y Polisi hwn yw amlinellu safbwynt y Brifysgol ar gamymddwyn rhywiol a cham-drin domestig, darparu gwybodaeth eglur ac enghreifftiau ynghylch yr hyn rydym ni'n ei ystyried yn ymddygiadau niweidiol, ac i sicrhau bod aelodau o'n cymuned yn deall sut i chwilio am gymorth a chefnogaeth. Dylai'r polisi hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r weithdrefn a'r dogfennau perthnasol a nodir yn Adran 19.

1.4 Mae gan y Brifysgol Bolisi Urddas yn y gwaith a Pholisi Pherthynas Waith Agos, ar gyfer aelodau o staff, a allai gyd-gysylltu gydag ymddygiadau sy'n gysylltiedig â chamymddwyn rhywiol a/neu drais. Os yw adroddiad yn cael ei wneud i'r Brifysgol ynghylch aelod o staff sy'n arddangos ymddygiadau sy'n gysylltiedig â chamymddwyn rhywiol, defnyddir pob disgresiwn wrth bennu pa Bolisi sy'n briodol, a thrwy hynny, sut mae'r Brifysgol yn gweithredu.

1.5 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth i unrhyw aelod o gymuned y Brifysgol sy'n gwneud datgeliad o gamymddwyn rhywiol neu drais. Bydd y gefnogaeth yma'n cael ei gynnig mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma gan rai sydd wedi derbyn hyfforddiant arbenigol ar drais rhywiol. Bydd y brifysgol yn parchu penderfyniadau'r unigolyn ac yn parchu os nad yw unigolyn yn dymuno adrodd wrth yr Heddlu. Os oes pryderon ynghylch diogelu, fel yr amlinellir yn ein Polisi Diogelu, yna mae'n bosib y bydd y Brifysgol angen cysylltu gyda'r Heddlu oherwydd ein Dyletswydd Gofal.

1.6 Nid yw'r polisi hwn yn amlinellu'r weithdrefn ymchwiliadol yn dilyn unrhyw adroddiad ffurfiol o gamymddwyn rhywiol a/neu gam-drin domestig. Mae hyn yn cael ei amlinellu yn y Datgeliad Camymddwyn Rhywiol neu Gam-drin Domestig Myfyriwr a Gweithdrefn Adrodd a Gweithdrefn Ddisgyblu ar gyfer Staff.

## 2. DIFFINIADAU

2.1 Defnyddir y diffiniadau canlynol yn y Polisi hwn:

| | |
|---|---|
| **Camddefnyddio Pŵer:** | sefyllfa lle mae person gyda chyfrifoldebau yn camddefnyddio eu grym er mwyn rhoi pwysau mewn ffordd:<br>• a allai arwain at unigolyn yn gwneud rhywbeth, neu'n ymatal rhag gwneud rhywbeth na fyddent fel arall wedi'i wneud;<br>• y gallai'r weithred neu ddiffyg gweithredu arwain yn rhesymol at rywbeth sy'n disgyn o fewn cwmpas perthynas bersonol agos. |
| **Caniatâd:** | mae'n golygu bod gan unigolyn ddewis p'un ai i fwrw ymlaen gyda sefyllfa bod ganddo/ganddi'r capasiti i wneud y dewis hwn. Caiff hyn ei amlinellu yn Adran 26 o Ddeddf Troseddau Rhywiol (2003) lle maent yn diffinio caniatâd fel "os ydynt yn cytuno drwy ddewis ac mae ganddynt y capasiti i wneud y dewis hwnnw". |
| **Rheolaeth Orfodol neu Ymddygiad Rheolaethol:** | gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygythiadau, dwyn cywilydd a chodi ofn neu ffurf arall ar gam-drin a wneir er mwyn niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr, fel y'i diffinnir gan Women's Aid. |
| **Y Parti sy'n Datgelu:** | mae'n golygu'r person(au) sydd wedi gwneud y Datgeliad ynghylch profiad o Gamymddwyn Rhywiol a Thrais. |
| **Datgeliad:** | mae'n golygu bod unigolyn yn dweud wrth aelod o Gymuned y Brifysgol eu bod wedi profi Camymddwyn a Thrais Rhywiol. Nid yw hyn yn cyfateb i Adroddiad ffurfiol. |
| **Cam-drin Domestig:** | Mae Adran 1(3) o'r Ddeddf Cam-drin Rhywiol yn ystyried ymddygiad treisgar fel:<br>• cam-drin corfforol neu rywiol<br>• ymddygiad treisgar neu fygythiol<br>• ymddygiad sy'n rheoli neu'n orfodol<br>• cam-drin economaidd |

| | |
|---|---|
| | • cam-drin seicolegol, emosiynol neu unrhyw gam-drin arall. |
| **Cam-drin yn Seiliedig ar Anrhydedd:** | mae'n ffurf ar Gam-drin Domestig sy'n cael ei gymell gan ganfyddiad y sawl sy'n cam-drin bod person wedi dwyn, neu y gallai ddwyn 'gwaradwydd' neu 'gywilydd' arnynt eu hunain, eu teulu neu'r gymuned, fel y'i diffinnir gan Karma Nirvana. |
| **Digwyddiadau:** | mae'n golygu achos o gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig ac mae'n cynnwys ystod eang o amgylchiadau. Er enghraifft, mae'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i honiadau, cwynion, amheuaeth o ymddygiad, a chanfyddiadau ffurfiol o Gamymddwyn Rhywiol neu Gam-drin Domestig. Mae hyn yn golygu ei fod hefyd yn cynnwys achosion lle na wneir Adroddiad, neu lle mae'r dystiolaeth yn annigonol er mwyn gallu symud ymlaen at achosion disgyblu. |
| **Cyfarfod Adolygu Digwyddiad (IRM):** | cyfarfod gydag aelodau priodol o staff, wedi'i gadeirio gan Gyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr neu Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau, er mwyn adolygu digwyddiad sydd wedi digwydd ac sy'n ymwneud ag aelodau o'r gymuned myfyrwyr. Nodau'r cyfarfod hwn yw cwblhau asesiad risg, sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cefnogi myfyrwyr ac i gytuno ar y camau nesaf o safbwynt sefydliadol. |
| **Adrodd:** | mae'n golygu bod aelod o gymuned y Brifysgol yn rhannu eu bod wedi profi camymddwyn rhywiol at bwrpas cychwyn gweithdrefn adrodd ffurfiol, fel yr amlinellir yn adran 9. Mae adroddiadau, yn wahanol i ddatgeliadau, yn rhoi caniatâd i'r Brifysgol ddechrau ar ymchwiliad ffurfiol. |
| **Y Parti sy'n Adrodd:** | mae'n golygu'r person(au) sydd wedi gwneud Adroddiad ynghylch profiad o Gamymddwyn Rhywiol a Thrais. |
| **Parti Ymatebol:** | mae'n golygu'r person(au) a enwir mewn Adroddiad yr honnir ei fod/bod wedi cyflawni gweithred o Gamymddwyn a Thrais Rhywiol. |
| **Camfanteisio'n Rhywiol** | MaeCymorth i Ferched Cymru yn diffinio hyn fel pan mae rhywun yn cael eu rheoli, dan orfodaeth, neu'n cael eu dylanwadu i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol gan drydydd parti, neu oherwydd rheidrwydd i ariannu anghenion sylfaenol. Mae gan gyflawnwyr fel arfer bŵer dros eu dioddefwyr, oherwydd oedran, rhywedd, hunaniaeth rywiol, cryfder corfforol, neu statws. Mewn sawl achos, bydd cyflawnwyr yn camfanteisio ac yn dylanwadu ar ddioddefwyr/rhai sydd wedi goroesi. |
| **Aflonyddu Rhywiol:** | mae wedi'i ddiffinio dan adran 26(2) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nid yw aflonyddu rhywiol yn drosedd yn ôl y gyfraith, ond mae ymddygiadau sy'n alinio gydag o yn cael eu delio â hwy dan y diffiniad o 'Gamymddwyn Rhywiol' ac yn Adran 6 isod. Pan mae cyffyrddiad yn gysylltiedig, megis cyffyrddiad corfforol nas dymunir neu gyffwrdd yn amhriodol, mae'n bosib y bydd yn croestorri gyda throseddau rhywiol mewn cyfraith trosedd. Mae'n bosib y bydd rhai ffurfiau yn gorgyffwrdd gyda throseddau eraill megis aflonyddu, stelcian neu rannu lluniau o natur rywiol er mwyn dial.<br><br>Mae'r Elusen Iechyd Rhywiol Brook yn amlinellu achosion o aflonyddu rhywiol fel unrhyw ymddygiad rhywiol nas dymunir sy'n gwneud i rywun deimlo'n ofidus, yn ofnus, wedi'u tramgwyddo neu wedi'u cywilyddio, neu y bwriadwyd iddynt deimlo'r ffordd yna. |
| **Camymddwyn a Thrais Rhywiol:** | mae'n golygu unrhyw ymddygiad nas dymunir, neu ymgais ar ymddygiad nas dymunir sydd o natur rywiol. Gall camymddwyn rhywiol ddigwydd drwy unrhyw gyfrwng, gan gynnwys drwy fecanweithiau ar-lein. Mae enghreifftiau o ymddygiadau camymddwyn rhywiol yn cael eu nodi yn adran 6 o'r polisi hwn. |

| | |
|---|---|
| **Cymuned y Brifysgol:** | mae'n golygu cymuned y Brifysgol, yn cynnwys yr holl staff cyfredol, a chan gynnwys staff sesiynol academaidd a staff dros dro, myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr a thrydydd parti sy'n rhyngweithio gyda'r Brifysgol megis contractwyr, gwasanaethau sydd wedi'u rhoi ar gontract allanol a rolau ymweld. |
| **Trais yn Erbyn Menywod a Merched** | mae'n golygu trais, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn seiliedig ar rywedd lle mae'r dioddefwr yn fenyw, fel y'i diffinir yn Adran 2 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. |

## 3. EGWYDDORION CYFFREDINOL

3.1 Mae'r Brifysgol yn arddel y gyfres ddilynol o egwyddorion er mwyn adlewyrchu ymrwymiad y Brifysgol i hyrwyddo diwylliant o gefnogaeth a pharch, gyda holl aelodau'r gymuned yn gyfrifol am eu harddel:

(a) Ni chaiff unrhyw ffurf ar gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig ei oddef. Er bod y polisi hwn yn ceisio darparu rhestr o'r ffurfiau mwyaf amlwg o hyn, dyw'r rhestr hon ddim yn gyfyngedig a gellir delio gydag unrhyw adroddiadau o ymddygiadau sydd wedi cael eu cymell yn rhywiol neu aflonyddu mewn ffordd sy'n cael llawer o effaith neu ymddygiad treisgar o dan y polisi hwn.

(b) Byddwn yn trin holl aelodau o'r Brifysgol gydag urddas a pharch. Disgwylir bod y gymuned yn rhannu'r cyfrifoldeb hwn o greu a chynnal amgylchedd i bawb gan gynnwys sicrhau bod yr holl berthnasoedd rhyngbersonol a rhyngweithiadau yn seiliedig ar barch ac na fydd camddefnyddio grym yn cael ei oddef.

(c) Rydym yn cydnabod yr effaith sylweddol mae pob math o brofiadau o gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig yn ei gael, ac yn cydnabod perygl posib hyn i astudiaethau a chyflogaeth, waeth pryd y bu i'r profiad(au) ddigwydd.

(d) Rydym yn ceisio meithrin amgylchedd lle gall myfyrwyr a staff deimlo eu bod wedi'u cefnogi a'u bod yn gallu gwneud datgeliadau neu adroddiadau ffurfiol ynghylch camymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig. Byddwn yn darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth i unigolion ynghylch sut y gallant wneud adroddiadau ffurfiol i asiantaethau allanol. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau megis yr Heddlu neu Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiad Rhywiol (SARC). Byddwn yn parchu hawl y parti sy'n datgelu i ddewis sut i symud datgeliad yn ei flaen a byddwn yn sicrhau ein bod yn cael ein harwain gan y dioddefwr/goroeswr.

(e) Byddwn yn ymateb mewn ffordd weithredol i bob datgeliad ac adroddiadau am gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig, ac er ein bod yn cydnabod y gallai rhai profiadau fod yn cyfateb i drosedd, byddwn yn sicrhau bod yr adroddiadau'n cael eu delio â hwy yn ofalus ac mewn ffordd feddylgar gan aelodau perthnasol o staff, drwy broses sy'n dryloyw ac sydd wedi'i chyfathrebu'n eglur i'r unigolion sy'n gysylltiedig. Lle mae gan y Brifysgol ddyletswydd i adrodd am ddigwyddiad wrth yr Heddlu gan gadw at ein Polisi Diogelu, bydd hyn yn cael ei gyfathrebu'n eglur wrth y Parti sy'n Adrodd os nad ydynt yn dymuno adrodd wrth yr Heddlu eu hunain. Byddwn yn gwneud ein gorau i gysylltu gyda'r Myfyriwr sy'n Adrodd cyn cysylltu gyda'r Heddlu, ac os nad yw hyn yn bosib, yna byddwn yn cysylltu gyda'r Parti sy'n Adrodd cyn gynted â phosib wedi i adroddiad gael ei wneud.

(f) Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd cefnogol lle gall staff a myfyrwyr deimlo'n hyderus ac wedi eu grymuso i wneud datgeliad, y byddant yn cael eu gwrando arnynt gan dderbyn arweiniad a chefnogaeth fel ei gilydd ynghylch yr opsiynau sydd ar gael iddynt. Byddwn yn parchu hawl y parti sy'n datgelu i ddewis sut i symud datgeliad yn ei flaen. Mewn rhai amgylchiadau penodol, megis pan mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i'w chyflawni, mae'n bosib y byddwn yn datgelu gwybodaeth a ddarparwyd yn rhan o ddatgeliad er mwyn rheoli risg.

(g) Bydd yr holl fyfyrwyr neu aelodau o staff sy'n rhan o ddatgeliad neu adrodd am gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig yn cael cynnig cefnogaeth briodol o fewn y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys y partïon sy'n Adrodd a'r rhai Ymatebol.

(h) Pan mae datgeliad neu adroddiad wedi'i wneud, bydd gwybodaeth ynghylch y Parti sy'n Adrodd a/neu'r Parti Ymatebol, a'r honiad honedig, ond yn cael ei rhannu gydag aelodau penodol o staff neu Dimau lle mae angen cyfiawn i wneud hynny. Mae hyn yn unol â pholisïau gwarchod data a phreifatrwydd y Brifysgol.

(i) Bydd holl staff y Brifysgol yn cael eu hysbysu o'r Polisi a byddant yn cael eu hyfforddi fel mae'n briodol ar gyfer eu rolau (e.e. Archwilio Adroddiad o Gamymddwyn Rhywiol a Thrais, Hyfforddiant Gwyliedydd, Ymatebwr Cyntaf, Swyddog Cyswllt Trais Rhywiol). Bydd yr holl staff sydd ynghlwm wrth y broses yn gweithredu gyda thosturi a chyfrinachedd bob amser.

(j) Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod yr holl staff sy'n darparu cefnogaeth un wrth un i'r rhai sydd wedi profi camymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig yn cael eu darparu gyda'r cyfleoedd hyfforddiant priodol sy'n gysylltiedig â'r pwnc. Mae hyfforddiant priodol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod aelodau o staff yn teimlo eu bod yn gallu ymateb i ddatgeliadau neu adroddiadau o'r natur hwn gan wneud hynny'n hyderus.

(k) Byddwn yn mabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma ac sy'n cael ei arwain gan y goroeswr/dioddefwr ac yn darparu cymorth i'r holl fyfyrwyr neu staff sydd yn rhan o'r broses.

(l) Rydym o'r farn na ddylai unrhyw berson ddioddef effeithiau camymddwyn rhywiol a/neu gam-drin domestig ar eu pen eu hunain a byddwn yn sicrhau bod cefnogaeth, gan gynnwys cyfeirio at sefydliadau arbenigol, allanol sy'n gallu darparu cefnogaeth ychwanegol megis cwnsela arbenigol. Os yw myfyriwr neu aelod o staff yn dymuno cael mynediad at y gefnogaeth allanol yma bydd y Brifysgol yn cynorthwyo i hwyluso'r atgyfeiriad hwn, lle bynnag y bo'n bosib.

(m) Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol a grwpiau er mwyn meithrin perthnasoedd positif i gefnogi ein holl waith yn y maes hwn, o atal, ymateb a gofal wedi'r digwyddiad.

## 4. CWMPAS

4.1 Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o gymuned y Brifysgol, waeth beth fo'u hoedran, anabledd, statws priodasol a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred), hunaniaeth rywiol, mynegiant o rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.

4.2 Os yw'r Brifysgol yn derbyn adroddiad gan drydydd parti o achos o gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig sy'n gysylltiedig ag aelod o Gymuned y Brifysgol, byddai hynny'n cael ei ystyried yn rhan o'r polisi hwn. Os oes honiad hanesyddol neu os nad yw'r Parti sy'n Adrodd na'r Parti Ymatebol bellach yn rhan o Gymuned y Brifysgol, yna byddai hyn yn cael ei ystyried yn rhan o'r Weithdrefn Trydydd Parti.

4.3 Nid yw datgeliadau ac adroddiadau a wnaed o dan y polisi hwn yn gyfyngedig i eiddo'r Brifysgol neu ardal ddaearyddol uniongyrchol y Brifysgol a gallai gynnwys, er enghraifft, ffurfiau electronig megis drwy apiau negeseuon neu'r cyfryngau cymdeithasol.

4.4 Gall rhai achosion o gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig fod cyfystyr â throsedd o dan gyfraith Cymru a Lloegr. Gellir mynd i'r afael â digwyddiadau o'r fath drwy achosion troseddol, achosion disgyblu mewnol y Brifysgol, neu, mewn rhai achosion, achosion troseddol a mewnol fel ei gilydd. Bydd pa achosion a ddilynir, os o gwbl, fel arfer yn dibynnu ar ddymuniadau'r Parti sy'n Adrodd oni bai bod yna Bryderon Diogelu ehangach. Os yw ymchwiliad troseddol yn cael ei gynnal yna bydd unrhyw ymchwiliadau mewnol yn cael eu gohirio fel y mae'n briodol, er mwyn peidio ag ymyryd gyda'r ymchwiliad troseddol.

4.5 Nid yw'r Polisi hwn yn cynnwys achosion o aflonyddu sydd heb fod yn rhywiol gan fod hyn yn cael ei gynnwys yng Ngweithdrefn a Pholisi Urddas yn y Gwaith ( ar gyfer staff) y Brifysgol a'r Polisi a Gweithdrefn Gwrth-aflonyddu a Gwrthfwlio (ar gyfer myfyrwyr). Os yw'r Parti sy'n Adrodd ac yn Ymateb yn bartneriaid rhamantus/rhywiol neu os ydynt wedi bod yn bartneriaid rhamantus/rhywiol yn flaenorol yna bydd barn yn cael ei hystyried ynghylch p'un a yw'r adroddiad yn cael ei asesu drwy'r Polisi Camymddwyn Rhywiol a Cham-drin Domestig neu'r Polisi Gwrth-aflonyddu a Gwrthfwlio ar gyfer myfyrwyr neu'r Polisi Urddas yn y Gwaith ar gyfer staff.

4.6 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod gan yr unigolion rolau deublyg yn y Brifysgol, gan gael eu cyflogi fel aelod o staff tra eu bod hefyd wedi ymrestru fel myfyriwr. Bydd unrhyw achosion a adroddir lle mae gan unigolion y rolau deuol hyn nyn cael eu hystyried ar sail achos wrth achos, gydag ystyriaeth i sut fydd yr achos yn cael ei ymchwilio drwy naill ai brosesau Ymddygiad Myfyrwyr neu brosesau AD. Mewn achosion o'r math yma, bydd IRM yn cael ei gynnal lle gwneir penderfyniad ar sut i fwrw ymlaen gydag ymchwiliad.

## 5. DYLETSWYDD GOFAL

5.1 Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (EA 2010) a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus 2011 i fod yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r angen am waredu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, creu dioddefwyr ac ymddygiadau eraill a waherddir gan yr EA 2010.

5.2 Mae'r Brifysgol yn cymryd ei dyletswydd gofal yn ddifrifol iawn. Mewn achos lle mae aelod o'r gymuned yn profi camymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig, bydd y Brifysgol yn hwyluso mynediad at gefnogaeth arbenigol briodol wrth barchu ymreolaeth yr unigolyn, yn ogystal â'u profiadau a'u penderfyniadau.

5.3 Mae'r Brifysgol yn gyfrifol am greu amgylchedd lle mae unigolion a effeithir gan gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig yn teimlo'n gyfforddus i ddatgelu gyda hyder, a heb gael eu barnu, ac i unigolion deimlo eu bod wedi eu grymuso i gael mynediad at gefnogaeth arbenigol.

5.4 Mae gan y Brifysgol bolisi a gweithdrefn ar wahân o safbwynt perthnasoedd personol agos rhwng aelodau o staff a/neu staff a myfyrwyr y mae disgwyl i staff a myfyrwyr gydymffurfio â hwy (gweler: Polisi Perthnasoedd Personol Agos).

## 6. CAMYMDDWYN A THRAIS RHYWIOL

6.1 Mae'r Brifysgol yn ystyried camymddwyn a thrais rhywiol yn unrhyw ffurf ar ymddygiad o natur rywiol nas dymunir, neu ymgais ar ymddygiad o natur rywiol. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y galll camymddwyn rhywiol ddigwydd drwy unrhyw gyfrwng, gan gynnwys drwy fecanweithiau ar-lein.

Mae enghreifftiau o gamymddwyn a thrais rhywiol wedi'u diffinio o fewn deddfwriaeth y DU i fod yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

(a) aflonyddu rhywiol (fel y'i diffinnir gan Adran 26(2) Deddf Cydraddoldeb 2010);

(b) ymosodiad rhywiol (fel i'i diffinir gan y Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003);

(c) treisio (fel i'i diffinir gan y Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003);

(d) mynegiant rhywiol corfforol nas dymunir (fel y'i nodir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Aflonyddu rhywiol a'r gyfraith 2017);

(e) bychanu, neu addo adnoddau neu fuddion yn gyfnewid am ffafrau rhywiol (fel y'i nodir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Aflonyddu rhywiol a'r gyfraith 2017);

(f) cam-drin rhywiol yn seiliedig ar ddelwedd (fe'i hadwaenir hefyd fel 'pornograffi dial'), recordio, bygwth rhannu neu rannu lluniau neu fideos rhywiol neu bersonol, heb ganiatâd y person a ddangosir, gan gynnwys delweddau neu gyfryngau ffugiad dwfn (fel y'i diffinir yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023);

(g) stelcian o natur rywiol neu sydd wedi'i gymell yn rhywiol; cyfathrebiadau parhaus nas dymunir neu ymddygiad a fwriedir i ddychryn, bychanu neu aflonyddu ar rywun megis eu dilyn dro ar ôl tro (fel y'i hamlinellir yn y Ddeddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997);

(h) stelcio seiber o natur rywiol neu gymhelliant rhywiol: defnydd ailadroddus a bwriadol o'r rhyngrwyd ac adnoddau cyfathrebu electronig eraill er mwyn gwneud cyfathrebiadau parhaus, nas dymunir a fwriedir i ddychryn, bychanu neu aflonyddu ar rywun neu i ysbïo ar rywun;

(i) uwch-sgertio ac edrych i lawr blows: ffilmio neu dynnu lluniau o dan ddillad person heb eu caniatâd i ddal delweddau o'u corff neu ddillad isaf (fel y'i diffinir yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003) ;

(j) dial: unrhyw weithredoedd niweidiol yn erbyn person arall, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aflonydd, bygythiadau, bychannu neu orfodaeth, a wnaed mewn ymateb i rywun yn datgelu neu'n adrodd ar unrhyw ffurf ar gamymddwyn rhywiol;

(k) dangos organau rhywiol i berson(au) arall/eraill heb eu caniatâd, gan gynnwys fflachio seiber (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023);

(l) trefnu neu gyfranogi mewn digwyddiadau y gellir yn rhesymegol tybio y byddent yn diraddio ac achosi cywilydd i rai sydd wedi profi camymddwyn rhywiol. Er enghraifft, digwyddiadau cymdeithasol neu wahoddiadau gyda themâu amhriodol;

(m) sbeicio: y weithred o ychwanegu sylwedd yn llechwraidd, sydd fel arfer yn gyffur neu alcohol, at ddiod neu fwyd rhywun heb iddynt fod yn gwybod.

6.2 Lle nad yw ymddygiad yn disgyn yn ddestlus o fewn darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 a diffiniadau o drais ac ymosod o fewn Deddf Troseddau Rhywiol 2003 neu weithgaredd ar-lein drwy'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023, gallai'r ymddygiad hwnnw barhau i fod gyfystyr â chamymddwyn rhywiol lle mae'n ymddygiad o natur rywiol nas dymunir, neu ymgais ar ymddygiad o natur rywiol nas dymunir, neu y canfyddir yn rhesymol ei fod o natur rywiol.

## 7. CAM-DRIN DOMESTIG

7.1 Y diffiniad a ddefnyddir ar draws llywodraeth y DU am gam-drin domestig yw *"unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli, yn gorfodi, yn bygwth, neu drais neu gam-drin rhwng rhai sydd, yn 16 oed neu drosodd sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu aelodau o'r teulu, waeth beth fo'u rhywedd neu eu rhywioldeb."* Gall mathau o gam-drin gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

(a) ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi lle mae person yn ymddwyn dro ar ôl tro mewn ffordd sy'n gwneud i rywun arall deimlo eu bod yn cael eu rheoli, yn ddibynnol, wedi'u hynysu, teimlo cywilydd neu ofn fel y'i diffinir yn y Ddeddf Troseddu Difrifol (2015);

(b) cam-drin corfforol neu ymddygiad bygythiol megis slapio, pwnsio, cicio, llosgi, ysgwyd, tagu, lluchio eitemau, defnyddio arfau neu fygythiadau o achosi niwed fel y'i diffinir yn y Ddeddf Cam-drin Domestig 2021;

(c) mae cam-drin ariannol megis cyfyngu ar fynediad at arian, cymryd arian, difetha eiddo, atal unigolyn rhag cael mynediad at swydd, gwrthod mynediad at arian neu gymryd dyledion yn enw person arall fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Cam-drin Domestig 2021;

(d) cam-drin emosiynol neu seicolegol megis sarhau, ymddwyn yn anghyfeillgar er mwyn gwneud i unigolyn deimlo'n ofnus, bychanu, cam-drin geiriol, atal unigolyn rhag cysgu, defnyddio trais neu fygythiadau i anifeiliaid anwes, bygwth niweidio trydydd parti megis teulu neu ffrindiau, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn codi ofn, gasleitio neu gysylltu'n barhaus fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Cam-drin Domestig 2021;

(e) cam-drin sydd wedi'i hwyluso gan dechnoleg megis creu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ffug, rhoi gwybodaeth ffug neu faleisus ar y cyfryngau cymdeithasol, hacio cyfrifon, defnyddio offer ysbïo ar leolwyr GPS, defnyddio dyfeisiadau personol megis oriawr glyfar neu ddyfeisiadau cartref clyfar er mwyn monitro unigolyn, defnyddio camerâu cudd neu gam-drin yn seiliedig ar ddelwedd megis creu delweddaeth ffug fel y'i diffinir yn y Ddeddf Cam-drin Domestig 2021;

(f) trais ar sail anrhydedd gan gynnwys priodas dan orfod neu anffurfio organau cenhedlu benywod fel y'i diffinir yn y Ddeddf Cam-drin Domestig 2021.

## 8. CANIATÂD

8.1 Diffinnir caniatâd fel y rhyddid a'r capasiti i wneud y dewis p'un ai i gytuno i'r gweithgaredd rhywiol, fe'i y'i diffinnir gan adran 74 Deddf Troseddau Rhywiol 2003.

8.2 Caniatâd:

(a) rhaid iddo wastad ddod yn gyntaf. Dyma gonglfaen perthnasoedd personol parchus ac iach.

(b) mae'n ymwneud â chytundeb eglur a diamwys, wedi'i fynegi mewn geiriau neu weithredoedd sy'n ddealledig gan bawb, i ymgymryd â gweithgaredd penodol.

(c) gellir ei dynnu'n ôl ar unrhyw bwynt.

(d) rhaid iddo gael ei roi'n wirfoddol, ac mae'n bosib nad yw'n ddilys os yw person yn ddarostyngedig i weithredoedd neu ymddygiadau sy'n ennyn pwysau emosiynol neu seicolegol, bygythion, neu ofn.

8.3 Nid yw person yn gallu cytuno i weithred rywiol yn rhydd ac yn wirfoddol pan maent:

(a) yn cysgu neu'n anymwybodol.

(b) yn dioddef yn sylweddol o effeithiau alcohol neu wedi'u heffeithio gan gyffuriau.

(c) wedi'u brawychu, eu gorfodi, neu eu bygwth, gan gynnwys pan maent yn ofni niwed iddynt eu hunain neu rywun arall.

(d) yn aneglur ynghylch hunaniaeth y person sy'n gwneud y weithred.

(e) wedi'u twyllo i wneud rhywbeth nad ydynt eisiau ei wneud.

(f) wedi eu cadw neu eu dal yn erbyn eu hewyllys.

(g) o dan 16 oed.

(h) dan bwysau, neu'n teimlo dan bwysau i gymryd rhan yn y weithred rywiol gan berson arall sydd mewn safle o awdurdod neu rym drostynt

8.4 Yn unol ag arfer gorau sydd wedi'i adnabod drwy Amod Cofrestru E6 Swyddfa Myfyrwyr mae Prifysgol Wrecsam yn darparu hyfforddiant caniatâd gorfodol ar-lein ar gyfer myfyrwyr. Mae hyn yn cael ei hwyluso drwy'r Amgylchedd Dysgu Rhithiol a chaiff ei gyfathrebu yn ystod sesiwn gynefino myfyriwr yn y Brifysgol. Mae'n bosib y bydd angen i fyfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partner, yn arbennig felly rhai sydd wedi'u lleoli yn Lloegr, gwblhau modiwlau hyfforddi gorfodol ar wahân gyda gwahanol lefelau o gydymffurfio.

## 9. CEFNOGAETH

9.1 Gall y gefnogaeth a gynigir i staff a myfyrwyr fod yn wahanol oherwydd y timau gwahanol fydd yn darparu hyn. Mae'r opsiynau ar gyfer cymorth wedi'u hadnabod isod:

9.2 Cymorth i Fyfyrwyr:
Mae cefnogaeth arbenigol ar gael i fyfyrwyr drwy Bywyd Myfyriwr a Champws. Bydd aelodau o staff o fewn Bywyd Myfyrwyr a Champws yn cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr sydd wedi profi camymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig neu rai sy'n ymateb i adroddiadau eu bod yn cael eu hymchwilio iddynt o dan y Polisi Camymddwyn Rhywiol a Cham-drin Domestig. Bydd aelodau o'r tîm yn Bywyd Myfyrwyr a Champws yn darparu gofod cefnogol sy'n ystyriol o drawma er mwyn i unigolion ddatgelu eu profiadau heb fod unrhyw angen am adroddiad ffurfiol, naill ai i'r Brifysgol neu'r Heddlu,. Bydd aelodau o staff yn;

(a) gwrando ar fyfyrwyr;
(b) archwilio opsiynau ar eu cyfer;
(c) egluro opsiynau adrodd;
(d) egluro pa gefnogaeth arbenigol allanol sydd ar gael;
(e) a grymuso myfyriwr i archwilio'r camau mwyaf priodol iddynt hwy.

Lle mae'n briodol, bydd aelodau o staff yn cysylltu gyda chydweithwyr neu bartïon allanol o ddiddordeb i hwyluso cymorth i fyfyrwyr. Gall hyn gynnwys siarad gyda'r Tîm Ymddygiad Myfyrwyr os yw myfyriwr yn dymuno gwneud adroddiad ffurfiol neu gwblhau atgyfeiriad at Amethyst SARC neu DASU os yw myfyriwr yn dymuno cael mynediad at eu gwasanaethau.

Mae aelodau o staff sy'n darparu cymorth i fyfyrwyr yn derbyn hyfforddiant allanol mewn perthynas â chamymddwyn rhywiol a cham-drin domestig. Gall myfyrwyr gael mynediad at gefnogaeth drwy GOFYN drwy gysylltu â ni ar ask@wrexham.ac.uk neu ein ffonio ar **01978 294421.**

9.3 Cefnogaeth ar gyfer Staff:
Mae cefnogaeth arbenigol ar gael i aelodau o staff drwy'r Tîm AD. Bydd y Tîm AD yn darparu cymorth i weithwyr sydd wedi profi camymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig, yn ogystal â rhai sy'n ymateb i adroddiadau eu bod yn cael eu hymchwilio iddynt o dan Bolisi Camymddwyn Rhywiol a Cham-drin Domestig y sefydliad.

Mae ein tîm yn cynnig gofod cyfrinachol i aelodau o staff ddatgelu eu profiadau heb fod unrhyw ofyn iddynt wneud adroddiad ffurfiol i'r Brifysgol na'r Heddlu. Gall aelodau o staff ddisgwyl:

- Amgylchedd diogel a chefnogol i drafod pryderon
- Canllawiau eglur ynghylch yr opsiynau sydd ar gael a'r camau nesaf
- Eglurhad o weithdrefnau adrodd mewnol ac allanol
- Gwybodaeth am wasanaethau cymorth allanol arbenigol
- Cael eu grymuso i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch y camau gweithredu mwyaf priodol

Lle mae'n briodol, bydd ein tîm yn cysylltu gyda chydweithwyr perthnasol neu sefydliadau allanol er mwyn hwyluso cymorth. Gall hyn gynnwys cyfeirio aelodau o staff at Swyddog Cyswllt Trais Rhywiol, Iechyd Galwedigaethol, neu sefydliadau cymorth allanol megis Amethyst SARC neu DASU.

Mae aelodau o staff sy'n darparu'r cymorth hwn yn derbyn hyfforddiant arbenigol mewn camymddwyn rhywiol a cham-drin domestig er mwyn sicrhau arweiniad gwybodus a sensitif.

Er mwyn cael mynediad at gymorth, gall staff gysylltu gyda'r Tîm AD drwy alison.bloomfield@wrexham.ac.uk.

## 10. DATGELIAD

10.1 Gwneir datgeliad pan mae rhywun yn dweud wrth aelod o staff y Brifysgol, sy'n aelod o Gymuned y Brifysgol, eu bod wedi profi camymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig. Gellir gwneud datgeliad wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig, ar-lein neu drwy ffyrdd eraill megis galwad ffôn neu e-bost. Lle gwneir datgeliad wyneb yn wyneb bydd cyfle i ddefnyddio gofod cyfrinachol.

10.2 Mae'r Brifysgol eisiau i holl aelodau o'r gymuned fod yn gallu datgelu achosion o gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig. Gall myfyrwyr gysylltu gyda GOFYN, ask@wrexham.ac.uk, er mwyn gwneud datgeliad o achos o gamymddwyn rhywiol a/neu gam-drin domestig. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall myfyrwyr ddatgelu i aelodau o staff ar draws y Brifysgol y maent yn gyfforddus yn rhannu eu profiadau gyda hwy. Dylai aelodau o staff wneud atgyfeiriad uniongyrchol i GOFYN ar ran y myfyriwr yn egluro'r hyn sydd wedi'i rannu. Os yw myfyriwr wedi datgelu i aelod o saff eu bod yn dymuno gwneud adroddiad ffurfiol i'r Brifysgol sy'n gysylltiedig â chamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig yna dylid cysylltu gyda'r Tîm Ymddygiad Myfyrwyr ar studentconduct@wrexham.ac.uk. Os nad yw'r myfyriwr am i'w gwybodaeth gael ei rhannu gyda'r gwasanaethau cymorth, yna dylai'r aelod o staff barhau i gysylltu gyda GOFYN er mwyn adrodd am ddigwyddiad, heb rannu gwybodaeth am fanylion personol y myfyriwr. Mae hyn yn sicrhau trosolwg sefydliadol er mwyn rheoli diogelwch a risg, ochr yn ochr â sicrhau y gall cymorth gael ei gynnig i'r myfyriwr drwy'r unigolyn wnaeth ddatgelu yn y lle cyntaf.

10.3 Os yw'r digwyddiad yn un hanesyddol, gall myfyrwyr barhau i ddatgelu i'r Brifysgol a derbyn cefnogaeth. Gall myfyrwyr dderbyn cefnogaeth gan Bywyd Myfyriwr a Champws drwy ask@wrexham.ac.uk.

10.4 Dylai aelodau o staff sy'n dymuno gwneud datgeliad o achos o Gamymddwyn Rhywiol a/neu Drais lle mae aelod o staff yn ddioddefwr/oroeswr gysylltu gydag Adnoddau Dynol ar alison.bloomfield@wrexham.ac.uk.

10.5 Nid yw datgeliad yn creu adroddiad ffurfiol ac nid yw'n gyfarwyddyd i'r Brifysgol weithredu. Bydd gan yn berson sydd wedi datgelu gyfle i gael ei glywed ac i ystyried eu hopsiynau cyn bwrw ymlaen, heb gymryd unrhyw gamau pellach. Ni chymerir unrhyw gamau gweithredu gan y Brifysgol yn syth, oni bai bod pryder ynghylch diogelwch ar y pryd neu os oes gan y Brifysgol ddyletswydd gofal o dan ddeddfwriaeth Diogelu (gweler Adran 12).

10.6 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gallai'r Parti sy'n Datgelu fod angen amser a chyfle i adfyfyrio cyn penderfynu ar sut maent am symud ymlaen gydag unrhyw gamau gweithredu, neu a ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bydd y Parti sy'n Datgelu yn cael yr opsiwn a'r dewis i wneud un neu fwy o'r canlynol:

(a) Adrodd wrth yr heddlu

(b) Gwneud adroddiad i'r Brifysgol

(c) Peidio â gwneud adroddiad ffurfiol am y digwyddiad

(d) Derbyn cyngor ar y gefnogaeth sydd ar gael

(e) Ystyried a ydynt am gadw tystiolaeth, drwy Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiad Rhywiol, pe baent yn dewis gwneud adroddiad ffurfiol i'r heddlu yn y dyfodol

10.7 Ni ddisgwylir i unigolion sy'n gwneud datgeliad i'r Brifysgol wneud adroddiad ffurfiol ac ni fydd dan unrhyw bwysau i wneud hynny. Bydd y cymorth a gynigir yn cael ei arwain gan y dioddefwr/goroeswr, gan sicrhau bod gan yr unigolyn ymreolaeth dros y penderfyniadau a wneir ganddynt, ac y rhoddir gwybodaeth ac arweiniad iddynt fel eu bod yn gallu gwneud dewis gwybodus ynghylch sut yr hoffent fwrw ymlaen.

10.8 Pan fydd myfyriwr yn gwneud datgeliad ynghylch achos o gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig i aelod o staff yn y Brifysgol, bydd aelodau o staff yn sicrhau eu bod yn cofnodi hyn mewn ffordd sy'n fanwl gywir ac amserol wedi i'r sesiwn ddigwydd. Argymhellir bod datgeliad yn cael ei wneud i aelodau o staff yn yr adran Bywyd Myfyrwyr a Champws fel y gall hyn gael ei gofnodi yn ein dogfennau Profforma a'u storio ar ein system CRM, Target Connect. Mae cofnodi'r datgeliad yn eglur yn bwysig er mwyn sicrhau cywirdeb cofnodion pe digwydd i gais gael ei wneud am nodiadau achos y Brifysgol yn ystod achosion troseddol. Hyd yn oed os yw myfyriwr yn datgan nad ydynt yn dymuno adrodd wrth yr Heddlu, bydd Cynghorwr yn parhau i sicrhau eu bod yn cofnodi'r datgeliad er mwyn sicrhau bod y nodiadau achos yn cael eu gwarchod ac er mwyn sicrhau bod gan y myfyriwr gyfle i newid eu meddwl yn y dyfodol.

10.9 Dylai'r Parti sy'n Datgelu fod yn ymwybodol y bydd cofnod yn cael ei gadw o'u Datgeliad, p'un a ydynt yn dewis ei adrodd neu beidio. Bydd cofnodion yn cael eu cadw am gyfnod penodol o amser cyn cael eu difa yn unol ag Amserlen Cadw Cofnodion y Brifysgol.

10.10 Os yw myfyriwr yn dymuno gwneud adroddiad ffurfiol i'r Brifysgol gallant wneud hynny drwy gysylltu gyda'r Tîm Ymddygiad Myfyrwyr ar studentconduct@wrexham.ac.uk. Gellir dod o hyd i wybodaeth ynghylch y broses a'r weithdrefn ar gyfer gwneud adroddiad ffurfiol yn y Cod Ymddygiad Myfyriwr.

10.11 Gall aelodau o staff ddod o hyd i ganllawiau ar ymateb yn briodol i ddatgeliadau yn y canllaw *Cefnogi Staff i Ymateb i Ddatgeliadau*. Gellir cael mynediad at gyngor ar sut i gefnogi myfyrwyr hefyd drwy'r Tîm GOFYN ar ask@wrexham.ac.uk a gellir cyrchu cyngor ar gyfer proses adrodd ffurfiol drwy'r Tîm Ymddygiad Myfyrwyr ar studentconduct@wrexham.ac.uk.

## 11. DATGELIAD TRYDYDD PARTI NEU DYST

11.1 Pan fo'r person sy'n datgelu yn drydydd parti sydd heb brofi'r camymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig (megis person sydd wedi bod yn dyst i ddigwyddiad(au) neu sydd wedi cael gwybod am yr achosion o gamymdddwyn rhywiol neu gam-drin domestig yn ymwneud â staff neu fyfyrwyr y Brifysgol, bydd y Brifysgol yn parchu hawl yr unigolyn wnaeth brofi'r digwyddiad i ddewis sut i symud datgeliad yn ei flaen. Gall fod rhai amgylchiadau arbennig lle mae gofyn i'r Brifysgol gymryd camau gweithredu priodol er mwyn atal niwed i unigolion neu'r Brifysgol yn seiliedig ar asesiad risg, a allai gynnwys gweithredu ar wybodaeth er gwaethaf, neu'n ddiarwybod i ddymuniadau'r unigolyn/unigolion sydd wedi profi'r digwyddiad. Fodd bynnag, disgwylir i'r achosion hyn fod yn rhai prin, a bydd camau gweithredu'r Brifysgol fel arfer yn cael eu harwain gan y person sy'n profi'r camymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig.

## 12. DIOGELU

12.1 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl, a gall fod dan rwymedigaeth, i rannu gwybodaeth heb ganiatâd mewn amgylchiadau y pennir bod risg i unigolyn, cymuned y Brifysgol, y gymuned yn ehangach neu os oes gan y Brifysgol gyfrifoldeb cyfreithiol i wneud hynny.

12.2 Ar yr achlysuron hyn, bydd Polisi a Gweithdrefn Diogelu'r Brifysgol yn cael eu dilyn. Lle mae'n bosib, bydd caniatâd yn cael ei geisio, a bydd y Parti sy'n Datgelu yn derbyn gwybodaeth wedi'i ddiweddaru drwy gydol y broses os mai'r farn yw bod angen cymryd camau gweithredu. Lle mae'n angenrheidiol ac yn briodol, bydd y Brifysgol yn dilyn Polisi Cysylltiadau Ymddiriedig wrth gysylltu gyda thrydydd parti.

## 13. YMCHWILIADAU TROSEDDOL

13.1 Nid yw'r Brifysgol yn gallu ymgymryd ag ymchwiliad troseddol. Fe fydd, fodd bynnag, yn cydweithredu'n llawn gydag unrhyw ymchwiliad cysylltiedig gan yr heddlu a gweithredoedd cyfreithiol dilynol.

13.2 Lle mae ymchwiliad troseddol yn cael ei gynnal a bod y Parti sy'n Ymateb yn aelod o gymuned y Brifysgol, gall y Brifysgol gymryd mesurau rhagofalus i amddiffyn y Parti sy'n Adrodd, y Parti sy'n Ymateb a chymuned ehangach y Brifysgol. Bydd hyn drwy broses asesu risg, lle mae'r Brifysgol yn teimlo bod ffordd resymol a phriodol o ryddhau ei dyletswydd gofal i bawb oedd yn gysylltiedig.

13.3 Ni fydd y Brifysgol yn ymgymryd ag unrhyw ymchwiliadau neu weithredoedd a allai drechu unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu. Gan hynny, pe digwydd ymchwiliad yr heddlu, bydd achosion mewnol y Brifysgol fel arfer yn cael eu gohirio. Lle mae'n bosib, ac yn unol â rheoliadau data, gall y Brifysgol gysylltu gyda'r Heddlu er mwyn cael gwybodaeth ar achosion troseddol er mwyn sicrhau nad yw'r cyfrifoldeb ar aelodau o staff neu fyfyrwyr i ddarparu diweddariadau, yn unol â'n dull sy'n ystyriol o drawma. Fodd bynnag, dylai unrhyw ddiweddariadau y bydd myfyriwr neu aelod o staff yn ei dderbyn ynghylch ymchwiliad troseddol gael ei gyfathrebu wrth y Brifysgol cyn gynted â phosib.

## 14. ADRODDIADAU I'R HEDDLU

14.1 Ni fydd y Brifysgol fel arfer yn adrodd ar achos o gamymddygiad rhywiol neu gam-drin domestig wrth yr heddlu heb ganiatâd y Parti sy'n Adrodd. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd gofyn i'r Brifysgol hysbysu'r heddlu am ymddygiad neu unrhyw beth sy'n achosi pryder, yn arbennig felly lle credir bod risg parhaus i eraill, yn unol â'n Polisi Diogelu .

14.2 Os yw'r Brifysgol yn cymryd y penderfyniad i adrodd am ddigwyddiad wrth yr heddlu yn erbyn dymuniad y Parti sy'n Adrodd, bydd y Parti sy'n Adrodd yn cael ei hysbysu gan dderbyn rhesymau llawn pam y gwnaed hynny.

14.3 Os ymgymerir ag ymchwiliad troseddol, bydd y Brifysgol yn hwyluso ymchwiliad yr heddlu lle bynnag y bo'n bosib.

## 15. CYFRINACHEDD

15.1 Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd preifatrwydd mewn achosion lle gwnaed honiadau o gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig. Bydd cyfrinachedd ar gyfer pob parti yn cael ei gynnal cyn belled ag y bo'n bosib, a bydd gwybodaeth ond yn cael ei rhannu gydag aelodau o staff sy'n hwyluso cymorth neu brosesau'r Brifysgol, oni bai y cytunwyd fel arall. Fodd bynnag, gall fod rhai amgylchiadau (e.e. diogelu neu ymosodiad corfforol) sy'n golygu y bydd gofyn i'r Brifysgol ddatgelu gwybodaeth arbennig i bersonél ychwanegol y Brifysgol neu drydydd partïon ar sail yr 'angen i wybod'. Mae hyn yn gyson gyda'r Brifysgol yn bodloni ei rhwymedigaethau diogelu a dyletswydd gofal.

15.2 Bydd gwybodaeth o fewn adroddiadau o gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig yn cael ei defnyddio i sicrhau bod patrymau'n cael eu hadnabod a sicrhau bod y mesurau angenrheidiol wedi'u cymryd o ganlyniad i hynny. Cyn belled ag y mae'n ymarferol bosib, bydd y Brifysgol yn ceisio amddiffyn cyfrinachedd.

15.3 Yr aelodau o staff fydd â mynediad at y wybodaeth yma ac a fydd yn gyfrifol am sicrhau'r wybodaeth yma ar gyfer adrodd fydd Rheolwyr Ansawdd, y Rheolwr Cyngor ac Arweiniad i Fyfyrwyr a Phennaeth Datblygu Sefydliadol.

## 16. CWYNION MALEISUS

16.1 Mae'r Brifysgol yn trin pob adroddiad o gamymddwyn rhywiol a cham-drin domestig yn hynod o ddifrifol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai fod posibilrwydd o adroddiadau maleisus neu ffug, a bydd unrhyw Barti sy'n Adrodd sy'n cael ei adnabod yn gwneud hyn yn cael eu delio â hwy o dan y weithdrefn/gweithdrefnau disgyblu Prifysgol perthnasol. Bydd y Parti sy'n Ymateb hefyd yn cael cynnig cymorth priodol gan yr adrannau Bywyd Myfyrwyr a Champws neu Adnoddau Dynol, fel y mae'n briodol.

## 17. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

17.1 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gallai profiadau o gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig groestori gyda ffurfiau eraill o wahaniaethu ac aflonyddu, ac felly gall grwpiau lleiafrifol gael eu heffeithio'n anghymesur.

17.2 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod menywod, neu rai sy'n uniaethu gyda bod yn fenyw yn fwy tebygol o brofi unrhyw ffurf ar gamymddwyn rhywiol a/neu gam-drin domestig. Bydd hyn yn cael ei ystyried o fewn ein dull sy'n ystyriol o drawma o gynnig cymorth ac addysg ynghylch y mater hwn. Bydd cefnogaeth yn cael ei gynnig i'n holl gymuned yn y Brifysgol, waeth beth fo'u rhyw neu rywedd.

17.3 Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddarparu cefnogaeth i unrhyw aelod o Gymuned y Brifysgol waeth beth fo'u hoedran, anabledd, statws priodasol a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred), hunaniaeth rywiol, mynegiant o rywedd a chyfeiriadedd rhywiol, ac i geisio lleihau unrhyw rwystrau ychwanegol i ddatgelu ac adrodd a allai effeithio'r grwpiau hyn.

## 18. MONITRO A CHADW COFNODION

18.1 Mae'r Brifysgol yn cadw cofnodion o Ddatgeliadau, Adroddiadau ac achosion o gamymddwyn rhywiol neu gam-drin domestig. Mae hyn yn galluogi'r Brifysgol i fonitro tueddiadau a chymryd rhan mewn mentrau ar gyfer atal. Mae adrannau Ymddygiad Myfyrwyr, Bywyd Myfyrwyr a Champws ac Adnoddau Dynol yn cadw'r adroddiadau hyn fydd yn cael eu hanonymeiddio mewn unrhyw broses adrodd.

18.2 Mae'r holl gofnodion yn cael eu cadw yn unol ag Amserlen Cadw Cofnodion y Brifysgol.

## 19. POLISÏAU A GWEITHDREFNAU CYSYLLTIEDIG

19.1 Dylid darllen y Polisi hwn ar y cyd gyda'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig canlynol:

- (a) Gwneud Datgeliad o Gamymddwyn Rhywiol (Myfyrwyr)
- (a) Cefnogi Staff i Roi Cymorth i Fyfyrwyr: Ymateb i ddatgeliadau o gamymddwyn rhywiol neu gam-drim domestig
- (b) Gweithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr
- (b) Polisi Perthynas Bersonol Agos
- (c) Gweithdrefn Ddisgyblu ar gyfer Staff
- (d) Urddas yn y Gwaith

**Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein polisïau'n cefnogi anghenion ein staff a'n myfyrwyr yn y ffordd orau; os hoffech chi roi adborth ar gynnwys y polisi hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda gydag Alison Bloomfield (alison.bloomfield@wrexham.ac.uk) a fyddai'n croesawu eich adborth mewn perthynas** â c**hynhwysiant.**